Gwella Gwynedd
Gyda'n Gilydd

Dogfen Ymgynghori Ebrill 2011
Drafft Strategaeth Gymunedol Gwynedd

Gwynedd
AR Y CYD - TOGETHER

Gwella Gwynedd Gyda'n Gilydd

Mae cymunedau Gwynedd yn wynebu sawl her sylfaenol, yn economaidd , amgylcheddol, ac yn gymdeithasol. Er mwyn gwella Gwynedd mae'n rhaid cael gweledigaeth tymor hir – a dyna yw diben y ddogfen hon.
Yma mae gennym grynodeb o'r prif flaenoriaethau sydd yn wynebu Gwynedd - a'r canlyniadau dymunol gyda'r camau gweithredu ar y cyd sydd wedi eu hadnabod hyd yma.

Fe luniwyd y blaenoriaethau yma trwy drafodaeth â phartneriaethau, sefydliadau cyhoeddus, mudiadau ac unigolion mewn grwpiau lleol. Fe hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith yma hyd yma.
Bydd y gwaith yma yn sail ar gyfer diweddariad i Strategaeth Gymunedol y sir, ar y cyd a phartneriaethau strategol y sir.

Mae'r her sydd yn wynebu ein cymunedau yn sylweddol – mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol mae blaenoriaethu deallus a gweithredu mewn partneriaeth yn bwysicach nag erioed. Mae'n rhaid i ni barhau gyda'n huchelgais o gyflawni mwy a chreu newid er budd Gwynedd a'i phobl.

Fe hoffwn eich gwahodd i gynnig eich sylwadau ar gynnwys y ddogfen hon, a'ch annog i barhau a'r gwaith gwerthfawr sydd yn cael ei wneud i gydweithio er mwyn gwella Gwynedd gyda'n gilydd.

Dyfed Edwards
Cadeirydd Gwynedd ar y Cyd

Cynnwys

CANLYNIADAU GWYNEDD AR Y CYD
Mae'r ddogfen hon yn cynnwys 5 prif ganlyniad - sef y pethau yr hoffem gyflawni yng Ngwynedd

Ardal ble mae'r economi yn ffynnu	03
Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy	06
Ardal ble mae plant a phobl ifanc yn llwyddo	10
Ardal gyffrous i fyw gyda chymunedau byrlymus	16
Ardal gydag iechyd da a'r gofal gorau yn y gymuned	22
Sut i gysylltu â Gwynedd ar y Cyd	26

Egwyddorion

Pwrpas y Strategaeth Gymunedol yw hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng Ngwynedd

Mae'r egwyddorion canlynol yn ganolog i'r gwaith

- Hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol
- Hyrwyddo gwasanaethau lleol sydd yn canolbwyntio ar y dinesydd
- Mynd i'r afael â materion cymdeithasol sy'n cyfrannu at amddifadedd, iechyd gwael a diffyg cyfle cyfartal
- Ymrwymiad i gydweithio ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.
- Ymrwymiad i fod yn atebol i drigolion y sir
- Hyrwyddo cyfle cyfartal
- Hyrwyddo yr iaith Gymraeg

Ardal ble mae'r economi yn ffynnu

- Rydym ni am weld economi Gwynedd yn ffynnu (*tudalen 4*)
- Rydym ni am weld cyfleoedd i bawb fod yn rhan o'r byd gwaith, gyda phwyslais ar bobl ifanc dan 25, a grwpiau eraill sy'n wynebu rhwystrau (*tudalen 5*)

Cyflwyniad

Dydi'r maes yma ddim yn un statudol, ond mae gan Awdurdodau Lleol y cyfrifoldeb o arwain ar ddatblygiad yr economi o fewn eu hardaloedd.

Yn y cyd-destun hwnnw, mae Cyngor Gwynedd, trwy'r Bwrdd Rhaglen Adfywio a'r Economi, wedi adnabod clwstwr o brosiectau mae yn eu hystyried yn drawsnewidiol, ac am eu blaenoriaethu ar gyfer eu gweithredu yn y cyfnod 2011-14 er mwyn sbarduno a chyfrannu at ffyniant economaidd y sir. Wrth weithredu'r prosiectau bydd sylw yn cael ei roi i dargedu'n ofodol, ac yn benodol i wyro prif raglenni i Feirionnydd.

Mae Partneriaeth Economaidd Gwynedd yn gweithredu er lles yr economi leol, ac yn fwyaf arbennig mae'n cynllunio, arwain a gweithredu rhaglen y Cynllun Datblygu Gwledig yng Ngwynedd. Mae'r Bartneriaeth hefyd yn cynnig fforwm ar gyfer y gyd-ddealltwriaeth, a'r gyd-drafodaeth rhwng y sector breifat, y drydedd sector a'r sector gyhoeddus mewn materion economaidd.

YR ECONOMI YN FFYNNU		
Profiadau	**Tystiolaeth**	**Bwriadau Gweithredu**
Beth ydym ni eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd a sut fydd hyn yn edrych?	Pam fod hwn wedi cael ei adnabod fel canlyniad?	Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r is - ganlyniad?
• Trigolion yn elwa o economi sy'n manteisio fwy ar ei chryfderau i ddatblygu sectorau gwaith perthnasol a chreu swyddi • Trigolion yn manteisio ar fwy o sectorau gwerth uchel perthnasol fydd wedi eu datblygu o fewn yr economi ac ar draws y sir • Trigolion yn manteisio a fwy o amrywiaeth o waith a swyddi ar draws y sir • Mwy o bobl fusnes y sir yn adrodd eu bod yn medru penodi gweithwyr lleol efo'r sgiliau priodol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg • Mwy o fusnesau Gwynedd yn ffynnu	• Nifer swyddi gwag ar gael yng Ngwynedd yn annigonol ar gyfer y rhai sy'n chwilio am swyddi - 0.20 swydd i bob hawliwr, gyda 0.12 swydd i bob hawliwr ym Meirionnydd • Dibyniaeth ar nifer fach o sectorau am gyflogaeth, a diffyg presenoldeb sectorau gwerth ariannol uwch, yn gwneud economi'r sir yn fwy bregus – sector gyhoeddus yn cyflogi 37.3% (cyn gweithredu toriadau cyllidol), tra bo cynhyrchu ar 7.6%, egni a dŵr ar 1.2%, a sectorau sail gwyddonol ar 2.6% • Twf wedi tueddu i ddigwydd mewn sectorau o werth ariannol cymharol isel – gyda'r sector dosbarthu, gwestai a thai bwyta yn cyflogi 31.2% • Cyfartaledd enillion Gwynedd ymysg yr isaf yng Nghymru – 89.5% o ffigwr Cymru, ac 81.4% o ffigwr y DG • Cyflogwyr yn adrodd bod diffygion sgiliau arwyddocaol a hanfodol ymysg eu gweithwyr - ac un o'r prif ddiffygion sgiliau nodwyd gan fusnesau yn Chwefror 2011 oedd diffyg sgiliau'r Gymraeg o fewn y gweithlu • Perifferaledd yr ardal a'i bellter o farchnadoedd mawr yn cyfrannu at danberfformiad cymharol yn yr economi, a chyflymder band-eang hefyd yn anigonol i greu mas critigol masnachol	• **Gwynedd Werdd a'r Sector Carbon Isel** – gan dargedu'r sector ynni, amgylchedd a pheirianneg er mwyn datblygu'r sector, rhoi'r sgiliau priodol ar gyfer gwaith, a sicrhau budd i fusnesau Gwynedd • **Gwynedd Ddigidol -** gan gydweithio efo LlCC i sefydlu Gwynedd fel ardal gyfangwbl ddigidol, a derbyn mantais gystadleuol ar gyfer busnesau'r sir • **Datblygiadau'r Sector Feddygol, Gwyddoniaeth ac Uwch-dechnoleg –** gan dargedu'r sector feddygol • **Cadw'r Budd yn Lleol -** gan ddatblygu sectorau allweddol trwy ganolbwyntio ar gyfleoedd ariannol cynlluniau cyfalaf mawr, a galluogi busnesau lleol i dderbyn mwy o'r budd yn deillio ohonynt • **Llwyddo yng Ngwynedd: Galluogi -** cymorth ariannol ac ymarferol i fentrau gwledig sefydlu neu ymestyn i feysydd newydd • **Llwyddo yng Ngwynedd: Cynhyrchion Lleol -** cymorth i gynhyrchwyr yng Ngwynedd gwledig gydweithio i gynyddu gwerth eu cynnyrch a darganfod a datblygu dulliau newydd o sicrhau marchnad i'w cynhyrchion

CYFLEOEDD I BAWB FOD YN RHAN O'R BYD GWAITH, GYDA PHWYSLAIS AR BOBL IFANC DAN 25, A GRWPIAU ERAILL SY'N WYNEBU RHWYSTRAU		
Profiadau	**Tystiolaeth**	**Bwriadau Gweithredu**
Beth ydym ni eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd a sut fydd hyn yn edrych?	Pam fod hwn wedi cael ei adnabod fel canlyniad?	Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r is - ganlyniad?
• Mwy o drigolion ar draws y sir mewn gwaith, yn enwedig pobl ifanc • Mwy o aelwydydd ar draws y sir yn profi cynnydd yn eu hincwm, efo llai yn y bandiau incwm isaf • Llai o blant yn byw mewn cartrefi tlawd	• Dim ond 67.6% o'r boblogaeth oed gwaith sydd mewn gwaith • Mae 625 o bobl ifanc Gwynedd, sef rhai dan 25 oed yn chwilio am waith - 30,5% o holl hawlwyr y Lwfans Ceiswyr Gwaith yn y sir • Mae incwm canolrifol aelwydydd Gwynedd yn gyson is na Chymru na'r DG, ac felly hefyd y ganran sydd yn y bandiau isaf o incwm – mae 9.8% o aelwydydd Gwynedd ar incwm blynyddol is na £10k (yn anigonol i dalu biliau ynni, derbyn morgais ac felly cynnal teulu); 22.2% ar incwm is na £15k; a 50.3% ar incwm is na £25k. Mae'r sefyllfa ar ei gwaethaf ym Meirionnydd	• **Llwybr Cyflogi Prentisiaid Ifanc -** gan ddatblygu prentisiaethau galwedigaethol, dargedu sectorau twf a gwerth uchel, a lleoli prentisiaid efo busnesau lleol a chyflogwyr gan gynnwys y sector gyhoeddus • **Goresgyn Rhwystrau i Waith –** gan dargedu grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn y farchnad lafur megis rhieni sengl, rhai mewn peryg o fod yn NEET, rhai efo problemau iechyd meddwl, a phobl ifanc

Ardal gydag Amgylchedd Cynaliadwy

- Sicrhau bod ôl-troed carbon Gwynedd yn isel (*tudalen 7*)
- Sicrhau bod pobl a chymunedau Gwynedd yn medru ymdopi â newid hinsawdd (*tudalen 8*)
- Cynnal amgylchedd naturiol sydd yn dod â budd i'r gymuned (*tudalen 9*)

Cyflwyniad

Fe gydnabyddir fod safon yr amgylchedd naturiol yng Ngwynedd o'r safon uchaf ac adlewyrchir hynny yn y nifer o ddynodiadau a geir o safbwynt safon yr amgylchedd. Newid yn yr hinsawdd yw un o'r bygythiadau mwyaf i'r byd ar hyn o bryd ac nid yw Gwynedd yn eithriad a dros y blynyddoedd nesaf bydd angen cymryd camau er mwyn lliniaru ei effeithiau ynghyd â addasu i'w sgil effeithiau.

Mae llawer o waith eisoes ar y gweill gan sefydliadau yn y maes hwn a'r bwriad yw adeiladu ar lwyddiant y gwaith hwn. Enghraifft yw Prosiect Lleihau Ôl Troed Carbon y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a ddeilliodd o waith Gwynedd Yfory a bydd y Prosiect hwn yn parhau yn ganolog i ymdrechion y Sir i leihau ei allyriadau carbon yn y dyfodol.

Partneriaeth Amgylcheddol Gwynedd fydd yn gyfrifol am arwain ar y thema hon gan sicrhau fod bwriadau gweithredu yn cael eu datblygu yn seiliedig ar yr is ganlyniadau yn cael eu datblygu, eu gweithredu a'u monitro gan annog cydweithio ar draws sefydliadau er mwyn uchafu'r buddion.

SICRHAU BOD ÔL-TROED CARBON GWYNEDD YN ISEL		
Profiadau	**Tystiolaeth**	**Bwriadau Gweithredu**
Beth ydym ni eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd a sut fydd hyn yn edrych?	Pam fod hwn wedi cael ei adnabod fel canlyniad?	Beth yw'r bwriadau gweithredu ar gyfer gwireddu'r is ganlyniad?
▪ Cynyddu'r defnydd o ynni adnewyddol. ▪ Hyrwyddo arbed ynni ac ymdrechion i wneud adeiladau yn fwy effeithlon ▪ Gwella trefniadau teithio integredig/ cynaliadwy ▪ Lleihau Gwastraff, annog a manteisio cyfleoedd economaidd ddaw o ailgylchu	▪ Llywodraeth Cynulliad Cymru - targed o leihau carbon 3% bob blwyddyn. ▪ Targed o leihad o 80% mewn allyriadau yn y DU erbyn 2050, gyda lleihad o leiaf 34% yn cael ei sicrhau erbyn 2020. ▪ Yn 2007 roedd allyriadau CO2 Sir Gwynedd yn 777,000tCO2. ▪ Mae gollyngiadau carbon deuocsid wedi lleihau o 2.6% yng Ngwynedd ers 2006. ▪ Y Sir yn 7fed isaf o holl awdurdodau Cymru ▪ Yn 2005 roedd ôl troed carbon Gwynedd per capita yn 6.7 tunnell tra roedd ôl troed carbon Cymru per capita yn 11.2 tunnell. ▪ Yn 2007 roedd ôl troed carbon Gwynedd per capita yn 6.6 tunnell tra roedd ôl troed carbon Cymru per capita yn 11.1 tunnell. ▪ Mae cyfran Gwynedd o ôl troed carbon Cymru yn 2.35%. ▪ Yn 2005/06 roedd allyriadau CO2 cyrff Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd sy'n gysylltiedig â'r defnydd o ynni mewn adeiladau annomestig yn 48,217tCO2. Erbyn diwedd 2009/10 bu gostyngiad o 5.77% yn yr allyriadau. ▪ Yn 2007/08 roedd allyriadau CO2 cyrff Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd sy'n gysylltiedig â theithiau busnes yn 9,650tCO2. ▪ Targed statudol ar gyfer ailgylchu/compostio 52% o wastraff trefol erbyn diwedd 2012/13 (25% ailgylchu, 27% compostio).	▪ Codi ymwybyddiaeth o fuddiannau arbed ynni ac ynni adnewyddol gan ddefnyddio esiamplau ymarfer da lleol a chenedlaethol. ▪ Codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd y mae ynni carbon isel/adnewyddol yn ei gynnig yn economaidd i'r Sir. ▪ Gwireddu cynlluniau er mwyn sicrhau fod y Sir yn manteisio ar ffynonellau ariannu megis ARBED 2, CERT, CESp, 'Feed in Tariff', 'Renewable Heat Incentive' a rhaglen Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru. ▪ Parhau i weithredu Prosiect Lleihau Ôl Troed y Bwrdd Gwasanaethau Lleol o fewn y sefydliadau sy'n aelodau o'r Bwrdd. ▪ Sicrhau fod amcanion Prosiect Lleihau Ôl Troed Carbon y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cael ei ehangu i'r sector gymunedol a'r sector fusnes. ▪ Sicrhau bod cynlluniau yn eu lle gan y prif sefydliadau cyhoeddus er mwyn lleihau teithio neu deithio mewn dulliau mwy cynaliadwy. ▪ Annog a hyrwyddo mentrau i leihau gwastraff a chynyddu lefelau ailgylchu/ compostio.

SICRHAU BOD POBL A CHYMUNEDAU GWYNEDD YN MEDRU YMDOPI Â NEWID HINSAWDD		
Profiadau	**Tystiolaeth**	**Bwriadau Gweithredu**
Beth ydym ni eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd a sut fydd hyn yn edrych?	Pam fod hwn wedi cael ei adnabod fel canlyniad?	Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r is ganlyniad?
• Cyfathrebu cyson, clir a dealladwy. • Cynyddu gwydnwch cymunedau a sefydliadau i effeithiau newid yn yr hinsawdd. • Sicrhau fod isadeiledd y Sir yn gallu ymdopi ag effeithiau newid yn yr hinsawdd.	Dengys data UKCP09 y bydd y sgil effeithiau canlynol yn effeithio ar Wynedd yn y dyfodol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd: hafau poethach, gaeafau mwynach • tymor tyfu hwy • mwy o law yn y gaeaf, llai yn ystod yr haf • moroedd cynhesach & cynnydd yn lefel y môr o hyd at 1 metr (2100) • cynnydd mewn tywydd eithafol • mwy o gyfnodau o sychder, tymheredd eithafol a llifogydd • stormydd/gwyntoedd ffyrnig aml O safbwynt risg o lifogydd ar lefel Cymru: 220,000 eiddo hefo risg o lifogydd – 1 mewn 9 o'r boblogaeth. • 80% o'r isadeiledd dŵr glan a budr a 22% o'r grid trydan mewn perygl o lifogydd. • Mae oddeutu 12,000 o drigolion Gwynedd yn byw mewn perygl o lifogydd. Dengys hyn fod y Sir yn drydydd i Gonwy a Chasnewydd yn ôl nifer o bobl sydd mewn perygl sylweddol o lifogydd.	• Sicrhau fod negeseuon clir, cyson a dealladwy yn cael eu cyfleu ynghylch effeithiau tebygol newid hinsawdd. • Cwblhau Prosiect Peilot Llifogydd Pwllheli • Adnabod cymunedau yn y Sir sydd â risg uchel o lifogydd. • Adnabod y risgiau sy'n bodoli yn y cymunedau a chamau ar gyfer ymateb. • Codi ymwybyddiaeth ymysg y trigolion. • Datblygu cynlluniau a rhaglen waith i ymateb i'r risgiau. • Sicrhau hydwythedd datblygiadau ac Isadeiledd o safbwynt newid hinsawdd. • Cyrff cyhoeddus i sicrhau eu bod yn hydwyth i newid hinsawdd a bod cynlluniau yn eu lle i sicrhau parhad mewn darpariaeth gwasanaethau

CYNNAL AMGYLCHEDD NATURIOL SYDD YN DOD A BUDD I'R GYMUNED		
Profiadau	**Tystiolaeth**	**Bwriadau Gweithredu**
Beth ydym ni eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd a sut fydd hyn yn edrych?	Pam fod hwn wedi cael ei adnabod fel canlyniad?	Beth yw'r bwriadau gweithredu ar gyfer gwireddu'r is ganlyniad?
• Sicrhau fod cymunedau yn gwerthfawrogi ac yn cyfrannu tuag at warchod yr amgylchedd naturiol. • Gwneud defnydd o'r amgylchedd naturiol fel adnodd economaidd. • Tyfu a phrynu bwyd yn lleol.	Fe ystyrir amgylchedd naturiol Gwynedd fel amgylchedd o'r ansawdd orau. Ymysg y dynodiadau ceir y canlynol: • Mae 63% o'r Sir wedi ei leoli o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. • 6.1% wedi ei ddynodi fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (Llŷn) • 140 o ddynodiadau SoDdGA (15% o ddynodiadau Cymru). • 88km wedi ei ddynodi fel Arfordir Treftadaeth. • Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau, sy'n ymestyn dros 230 cilomedr o hyd, yw'r ail ACA mwyaf yn y DU. • 7 Gwarchodfa Natur Lleol. • 25 Gwarchodfa Natur Genedlaethol. • Dengys astudiaeth gan Bartneriaeth Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd yn 2001 fod yr amgylchedd yn rhan sylfaenol o economi Cymru gan: • Gynnal 1 o bob 6 swydd. • Gyfrannu £1.8biliwn mewn cyflogau i economi Cymru yn flynyddol.	• Amddiffyn ac ychwanegu gwerth i nodweddion amgylcheddol arbennig Gwynedd. • Addysgu cymunedau ynglŷn â phwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd naturiol. • Amlygu cyfleoedd economaidd sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol. • Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o dyfu a chynhyrchu bwyd lleol yng Ngwynedd.

Gwynedd yn ardal ble mae plant a phobl ifanc yn llwyddo

- Plant a phobl ifanc yn llwyddo i gael y cychwyn gorau mewn bywyd ac i dderbyn gofal da mewn cartrefi diogel, addas a sefydlog (*tudalen 11*)
- Plant a phobl ifanc yn llwyddo i gyflawni eu potensial dysgu yn llawn ac i ennill sgiliau (*tudalen 12*)
- Plant a phobl ifanc yn llwyddo i gael yr iechyd gorau posibl a chael mynediad teg at brofiadau a chyfleoedd egniol, creadigol a chyffrous (*tudalen 13*)
- Plant a phobl ifanc yn llwyddo i leisio'u barn yn hyderus a gwneud cyfraniad positif i gymdeithas (*tudalen 14*)
- Pobl ifanc yn llwyddo i ddatblygu'n oedolion ifanc hyderus, llwyddiannus ac annibynnol sy'n gwneud y gorau o'u bywyd (*tudalen 15*)

Cyflwyniad

Mae gan blant a phobl ifanc Gwynedd yr hawl i fyw bywydau hapus, bodlon a diogel, i leisio'u barn ac i gael mynediad at amrediad o wasanaethau, cyfleoedd a phrofiadau a fydd yn eu galluogi i lwyddo a chyrraedd eu llawn botensial.

Mae oddeutu 37,500 o blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed yn byw yng Ngwynedd. Ond, nid pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw yng Ngwynedd ar hyn o bryd sy'n gallu cael mynediad at y gwasanaethau, cyfleoedd a phrofiadau a fydd yn eu galluogi i lwyddo a chyrraedd eu llawn botensial oherwydd cyfuniad o amgylchiadau personol, teuluol, cymdeithas, economaidd a daearyddol.

O ganlyniad, mae creu Gwynedd yn ardal ble mae plant a phobl ifanc yn llwyddo beth bynnag fo'u hamgylchiadau yn flaenoriaeth uchel i Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd.

Mae dyletswydd Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd i ymgynghori ynglŷn â Chynllun Plant a Phobl Ifanc o dan Y Ddeddf Plant (2004) yn cael ei ddiwallu drwy'r ddogfen hon.

PLANT A PHOBL IFANC YN LLWYDDO I GAEL Y CYCHWYN GORAU MEWN BYWYD AC I DDERBYN GOFAL DA MEWN CARTREFI DIOGEL ADDAS A SEFYDLOG		
Profiadau	**Tystiolaeth**	**Bwriadau Gweithredu**
Beth ydym ni eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd a sut fydd hyn yn edrych?	Pam fod hwn yn bwysig a beth yw'r sefyllfa yng Ngwynedd ar hyn o bryd?	Beth yw'r bwriadau gweithredu ar gyfer gwireddu'r is-ganlyniad?
• Rhieni a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth amserol sydd yn fwy integredig ac sydd wedi ei gynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion. • Tadau yn cael eu cefnogi i chwarae rôl lawn wrth fagu eu plant. • Rhieni a theuluoedd yn cael mynediad at wybodaeth ynglŷn â'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt wrth fagu eu plant. • Rhieni a theuluoedd yn cael mynediad llawn at ofal plant sy'n hygyrch, hyblyg ac yn fforddiadwy. • Plant yn cael eu magu'n ddwyieithog o fewn aelwydydd sy'n defnyddio'r Gymraeg. • Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn byw mewn cartrefi a llety diogel addas a sefydlog. • Teuluoedd yn wynebu llai o anfantais oherwydd tlodi.	Mae ansawdd y gofal a roddir i blant gan eu rhieni, amgylchiadau economaidd y teulu a chyflwr a sefydlogrwydd y cartref yn cael dylanwad sylweddol ar ganlyniadau plant a phobl ifanc mewn bywyd. Ond, bydd rhai rhieni a theuluoedd angen cymorth a chefnogaeth o bryd i'w gilydd er mwyn darparu'r gofal, profiadau a chyfleoedd gorau i'w plant. Mae 13,095 o deuluoedd yn byw yng Ngwynedd - mae 44% yn deuluoedd gydag un plentyn yn unig, mae 37% yn deuluoedd gyda dau o blant ac mae 19% yn deuluoedd gyda thri neu fwy o blant. Ar hyn o bryd, mae gallu rhieni a theuluoedd i gael mynediad at gefnogaeth yn ddibynnol ar ble maent yn byw a lleoliad gwasanaethau, cynlluniau a rhaglenni a cheir bylchau yn y gefnogaeth sydd ar gael i rieni a theuluoedd, yn arbennig y rhai mwyaf bregus, ar draws y continwwm o angen. Gwelwyd cynnydd dros y blynyddoedd diweddar yn y nifer o blant mewn angen a phlant mewn gofal. O safbwynt tlodi, mae 15.9% o blant yng Ngwynedd yn byw mewn cartrefi di-waith ac mae 15% o blant yn cael eu hystyried fel rhai sy'n byw mewn tlodi difrifol. Gwelwyd cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf yn y nifer o deuluoedd sy'n ddigartref a rhagwelir bydd y tueddiad yma yn parhau dros y blynyddoedd nesaf yn sgil newidiadau sy'n cael eu cyflwyno i'r gyfundrefn budd-daliadau.	• Sefydlu modelau newydd ar gyfer cynllunio, comisiynu a darparu cefnogaeth integredig i deuluoedd ar draws y continwwm o angen, gan sicrhau pwyslais ar deuluoedd bregus a'r rhai sydd mewn perygl o fod yn fregus. • Sicrhau bod teuluoedd gyda phlant anabl dan 5 oed yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig yn unol â'r rhaglen 'Cefnogi Cynnar'. • Sefydlu Gwasanaeth Integredig Cefnogi Teuluoedd ar gyfer cefnogi rhieni gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau. • Gweithredu Cynllun Dechrau'n Deg yn ardaloedd Bangor, Caernarfon a Blaenau Ffestiniog. • Trefnu a chynnal cyrsiau a grwpiau rhiantu yng Ngwynedd ar gyfer mamau a thadau gyda phlant o bob oedran. • Datblygu darpariaethau gofal plant sy'n hygyrch, hyblyg a fforddiadwy ar draws y Sir. • Gwella sgiliau rhieni a'u cefnogi i gael mynediad at gyngor a gwybodaeth am faterion yn ymwneud â gwaith budd-daliadau, rheoli arain, a thai.

PLANT A PHOBL IFANC YN LLWYDDO I GYFLAWNI EU POTENSIAL DYSGU YN LLAWN AC I ENNILL SGILIAU		
Profiadau	**Tystiolaeth**	**Bwriadau Gweithredu**
Beth ydym ni eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd a sut fydd hyn yn edrych?	Pam fod hwn yn bwysig a beth yw'r sefyllfa yng Ngwynedd ar hyn o bryd?	Beth yw'r bwriadau gweithredu ar gyfer gwireddu'r is-ganlyniad?
• Plant a phobl ifanc yn derbyn y profiadau dysgu gorau posibl ym mhob sefydliad addysgol yng Ngwynedd. • Plant a phobl ifanc yn cymryd y cyfrifoldeb i ddysgu ac i ddatblygu hyd eithaf eu gallu. • Pobl ifanc yn derbyn rhaglenni addysg, hyfforddiant a chefnogaeth bersonol o ansawdd uchel. • Plant a phobl ifanc yn derbyn profiadau dysgu mewn sefydliadau addysgol sydd yn ymateb yn llawn i arferion a phrosesau dysgu ac addysgu cyfoes ac sy'n darparu gwasanaethau a chyfleusterau i'r gymuned ehangach. • Plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cyfleoedd a phrofiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial dysgu yn llawn. • Plant a phobl ifanc bregus yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn sefydliadau prif-lif ac yn derbyn cynhaliaeth briodol i oresgyn rhwystrau i ddysgu.	Mae derbyn profiadau a chyfleoedd dysgu da ac o safon mewn sefydliadau hygyrch, modern ac addas yn galluogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial dysgu yn llawn ac i ddatblygu, ennill a meithrin y wybodaeth a'r sgiliau y mae arnynt eu hangen i ddatblygu'n unigolion dwyieithog hyderus, llwyddiannus a chyflawn. Mae cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn dda ar draws pob Cyfnod Allweddol a gyda'r uchaf yng Nghymru. Ond, mae'r darlun yn llai ffafriol ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr megis y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae canran y disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol wedi cynyddu o 3.93% yn 1998 i 6.63% yn 2009 ac mae'r duedd yma yn debygol o barhau i'r dyfodol. Mae presenoldeb ac absenoldeb anawdurdodedig yn y sector cynradd yn dda ond ychydig yn is yn 2009 nag yn 2007 yn y sector uwchradd. Er bod y nifer cyfartalog y diwrnodau a gollwyd o'r ysgol gan bob gwaharddiad cyfnod penodol yn gwella, mae'r ffigwr yn parhau'n uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r gostyngiad yn y niferoedd o ddisgyblion mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yng Ngwynedd wedi arwain at gynnydd yn y nifer o lefydd gweigion o fewn sefydliadau addysg ar draws y Sir. Mae angen hefyd buddsoddi mewn gwella cyflwr rhai sefydliadau addysgol mewn ardaloedd penodol o fewn y Sir.	• Cefnogi a herio ysgolion i wella perfformiad grwpiau gwahanol o ddisgyblion, i leihau'r gwahaniaeth mewn perfformiad o fewn ac ar draws ysgolion ac er mwyn sicrhau dilyniant yn sgiliau dwyieithog disgyblion. • Trawsnewid y ddarpariaeth a gynigir i blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol drwy sefydlu model o ddarparu ar sail arfer dda. • Sicrhau cydweithio aml-asiantaethol er mwyn galluogi dysgwyr bregus i dderbyn cefnogaeth a chynhaliaeth briodol i oresgyn rhwystrau i ddysgu ac i gyflawni eu potensial dysgu yn llawn. • Cefnogi ysgolion i ddatblygu rhaglenni ymyrraeth effeithiol mewn perthynas â sgiliau sylfaenol. • Parhau i weithio gydag ysgolion i'w paratoi ar gyfer Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn. • Rhesymoli llefydd gweigion o fewn sefydliadau addysgol yng Ngwynedd a gwella cyfleusterau ac adeiladau addysgol mewn ardaloedd penodol. • Sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ddim yn mynychu ysgol neu sefydliad addysgol arall yn derbyn profiadau dysgu da.

PLANT A PHOBL IFANC YN LLWYDDO I GAEL YR IECHYD GORAU POSIBL A CHAEL MYNEDIAD TEG AT BROFIADAU A CHYFLEOEDD EGNIOL, CREADIGOL A CHYFFROUS		
Profiadau	**Tystiolaeth**	**Bwriadau Gweithredu**
Beth ydym ni eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd a sut fydd hyn yn edrych?	Pam fod hwn yn bwysig a beth yw'r sefyllfa yng Ngwynedd ar hyn o bryd?	Beth yw'r bwriadau gweithredu ar gyfer gwireddu'r is-ganlyniad?
• Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn mwynhau'r iechyd corffol a meddyliol gorau posibl. • Plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod ac ecsploetiaeth. • Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn derbyn cyngor a gwybodaeth sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau a phenderfyniadau positif ynglŷn â'u hiechyd a lles. • Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael mynediad teg at wasanaethau iechyd a gofal. • Plant a phobl ifanc yn derbyn gwybodaeth am y niwed y gall ysmygu, yfed alcohol, defnyddio cyffuriau a chamddefnyddio sylweddau ei achosi i'w hiechyd, i'w teuluoedd ac i'r gymuned ehangach. • Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu hannog a'u cefnogi i fwyta'n iach. • Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael mynediad teg at gyfleoedd chwarae ffurfiol ac anffurfiol sy'n briodol, yn ddiogel ac yn gyffrous. • Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael mynediad teg at brofiadau a chyfleoedd egniol, creadigol a diwylliannol cyffrous.	Mae iechyd corfforol a lles emosiynol da yn gosod sylfaen bwysig ar gyfer bywyd ac yn galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan lawn mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ac i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd egniol, creadigol a chyffrous. Mae cyfraddau imiwneiddio plant yn uchel yng Ngwynedd a gyda'r uchaf yng Nghymru. Mae cyfraddau bwydo o'r fron wedi aros yn eithaf cyson dros y tair blynedd ddiwethaf gyda 60% o famau yn dewis bwydo eu plant o'r fron yn 2008 / 09. Ond, mae cyfraddau beichiogrwydd yn yr arddegau wedi cynyddu, yn arbennig ymhlith merched o dan 18 oed. Mae cyfraddau hunanladdiad yng Ngwynedd yn isel a gyda'r isaf yng Nghymru ac mae'r nifer o blant a phobl ifanc o Wynedd sydd wedi cael eu gweld yn Ysbyty Gwynedd oherwydd hunan niweidio wedi gostwng yn sylweddol ers 2007 / 08. Nid oes data ar gael eto ynglŷn ag arferion plant a phobl ifanc o safbwynt bwyta'n iach, ysmygu a cham-ddefnyddio sylweddau. Mae'r nifer o blant a phobl ifanc sy'n aelodau o fudiadau ieuenctid megis yr Urdd, Ffermwyr Ifanc a Chlybiau Ieuenctid wedi cynyddu yng Ngwynedd. Ond, mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod plant a phobl ifanc dan amgylchiadau arbennig yn cael mynediad teg at brofiadau a chyfleoedd egniol, creadigol a chyffrous yng Ngwynedd.	• Annog a chefnogi mwy o famau i fwydo eu babanod o'r fron. • Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad lawn at wybodaeth, cyngor a gwasanaethau i gefnogi eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol (e.e. gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion, ymgyrchoedd gwrth-fwlio ayyb). • Hyrwyddo'r Cynllun Cerdyn-C er mwyn sicrhau bod gan bobl ifanc fynediad at gyngor a gwybodaeth ar faterion iechyd rhywiol a dulliau atal cenhedlu. • Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad lawn at wybodaeth glir a chyson ar beryglon ysmygu, yfed alcohol, defnyddio cyffuriau a chamddefnyddio sylweddau. • Comisiynu cynlluniau a gweithgareddau chwarae ffurfiol, anffurfiol ac agored gan gynnwys cynlluniau a gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd. • Darparu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau egniol a chorfforol drwy 'Gynlluniau Pobl Ifanc Egniol Gwynedd'. • Darparu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau drama, celf a dawns.

PLANT A PHOBL IFANC YN LLWYDDO I LEISIO'U BARN YN HYDERUS A GWNEUD CYFRANIAD POSITIF I GYMDEITHAS		
Profiadau	**Tystiolaeth**	**Bwriadau Gweithredu**
Beth ydym ni eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd a sut fydd hyn yn edrych?	Pam fod hwn yn bwysig a beth yw'r sefyllfa yng Ngwynedd ar hyn o bryd?	Beth yw'r bwriadau gweithredu ar gyfer gwireddu'r is-ganlyniad?
• Plant a phobl ifanc yn derbyn cyfleoedd ystyrlon i leisio'u barn a chael eu clywed ar faterion sydd yn effeithio arnynt. • Plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau. • Plant a phobl ifanc yn cael eu parchu ac yn dangos parch at ei gilydd ac eraill beth bynnag fo'u hil, iaith, rhyw, tueddfryd rhywiol, anabledd, oed neu grefydd. • Plant a phobl ifanc sydd angen cymorth a chefnogaeth i leisio'u barn yn cael mynediad at wasanaethau eiriolaeth annibynnol. • Plant a phobl ifanc yn derbyn cyfleoedd i ddefnyddio, datblygu ac ehangu eu sgiliau dwyieithog. • Plant a phobl ifanc yn derbyn cyfloedd i ddefnyddio ac ymarfer y Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac anffurfiol. • Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn parchu'r amgylchedd ac yn gofalu am y byd o'u cwmpas. • Pobl ifanc yn cael eu hannog a'u cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli.	Mae'n bwysig fod pobl plentyn a pherson ifanc yn gwybod fod ganddynt hawl i fynegi barn ac i gymryd rhan yn y penderfyniadau, y cynllunio a'r arolygu sy'n ymwneud â gweithgareddau a gwasanaethau allai effeithio arnynt. Gall rymuso llais plant a phobl ifanc drwy drefniadau cyfranogi effeithiol arwain at nifer o fanteision gan gynnwys gwella eu perfformiad academaidd a'u hymddygiad yn yr ysgol; datblygu eu sgiliau personol, cymdeithasol a chymunedol a chynyddu eu hymdeimlad o hunanhyder a'u hunan-barch. Mae'r niferoedd sydd yn dal logo Clywed wedi cynyddu'n flynyddol yng Ngwynedd - o 76 yn 2007 / 08 i 110 yn 2009 / 10. Er bod trefniadau eraill mewn lle yng Ngwynedd er mwyn grymuso llais plant a phobl ifanc megis Fforymau Ieuenctid a Chynghorau Ysgol mae angen cryfhau a datblygu'r trefniadau hyn ymhellach er mwyn sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cyfle i leisio'u barn yn effeithiol. Er bod 70% o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg gyda'r athro / athrawes yn y dosbarth, dim ond 27% sy'n ei ddefnyddio gyda'u cyfoedion ar y buarth sy'n awgrymu felly bod angen buddsoddiad pellach mewn mentrau wedi eu hanelu at hyrwyddo defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg y tu fewn ac yn arbennig y tu allan i'r ystafell ddosbarth.	• Cyhoeddi Strategaeth Gyfranogi Plant a Phobl Ifanc newydd gyda Chynllun Gweithredu. • Hyrwyddo hawliau a chyfrifoldebau plant a phobl ifanc yn unol â Hawliau Ni - Siarter Hawliau Plant a Phobl Ifanc Gwynedd. • Cynyddu'r niferoedd o wasanaethau sy'n llwyddo i dderbyn achrediad 'Clywed'. • Comisiynu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen cymorth i leisio'u barn. • Hyrwyddo 'Clust i'r Ifanc' fel gwasanaeth ar gyfer derbyn adborth gan blant a phobl ifanc ynglŷn â'r gwasanaethau a ddefnyddir ganddynt. • Datblygu rhaglenni a chynlluniau er mwyn cynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac anffurfiol. • Cynllunio a darparu cyfleoedd i bobl ifanc wirfoddoli a chymryd rhan effeithiol a lawn ym mywydau eu cymunedau. • Annog plant a phobl ifanc i wneud defnydd diogel a chyfrifol o wefannau rhwydweithio cymdeithasol.

POBL IFANC YN LLWYDDO I DDATBLYGU'N OEDOLION IFANC HYDERUS, LLWYDDIANNUS AC ANNIBYNNOL SY'N GWNEUD Y GORAU O'U BYWYD		
Profiadau	**Tystiolaeth**	**Bwriadau Gweithredu**
Beth ydym ni eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd a sut fydd hyn yn edrych?	Pam fod hwn yn bwysig a beth yw'r sefyllfa yng Ngwynedd ar hyn o bryd?	Beth yw'r bwriadau gweithredu ar gyfer gwireddu'r is-ganlyniad?
• Pobl ifanc yn cael mynediad llawn at amrywiaeth o brofiadau dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n rhoi'r cyfleoedd iddynt ennill cymwysterau ac achrediadau, datblygu sgiliau, mentro a mwynhau. • Pobl ifanc yn cael eu paratoi ar gyfer y byd gwaith a'u harfogi efo'r mathau cywir o sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig o fewn yr economi leol. • Pobl ifanc yn derbyn cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd. • Pobl ifanc yn cymryd rhan lawn mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant. • Pobl ifanc yn cael eu cefnogi'n llawn yn ystod cyfnodau trosiannol pwysig er mwyn eu galluogi i fod yn oedolion ifanc hyderus. • Pobl ifanc yn cael mynediad at gyngor, gwybodaeth a gwasanaethau sy'n ymateb i'w anghenion lletya. • Pobl ifanc gydag ymdeimlad cryf o hunan-barch a hunanhyder sy'n eu galluogi i wneud y gorau o'u bywydau.	Mae cymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant a chymryd rhan yn effeithiol a chyfrifol ym mywydau eu cymunedau yn galluogi pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i fod yn oedolion ifanc hyderus, llwyddiannus ac annibynnol. Mae'r ganran yng Ngwynedd sy'n gadael addysg llawn amser yn ddigymhwyster yn isel, ond mae cyflogwyr yn mynegi pryder nad yw pobl ifanc yn meddu sgiliau allweddol ar gyfer y byd gwaith. Er bod canran y bobl ifanc 16 i 18 oed yng Ngwynedd nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi aros mwy neu lai yn gyson ers 2004, mae nifer y bobl ifanc rhwng 18 a 25 oed sydd heb waith ac sy'n hawlio'r budd-dal JSA yn uchel ac ar gynnydd oherwydd cyflwr presennol yr economi a'r gystadleuaeth am swyddi. Mae gwella cyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau ieuenctid a hamdden yn thema gyson sy'n deillio o weithgareddau cyfranogi gyda phlant a phobl ifanc. Yn 2007/08, cyflwynodd 171 o bobl ifanc (16 i 24 oed) yn ddigartref i'r Cyngor. Cynyddodd hyn i 216 yn 2008/09 ond fe ostyngodd i 190 yn 2009/10. Fodd bynnag, yr oedd llai na hanner ohonynt yn gymwys i dderbyn gwasanaeth.	• Llunio Cynllun Comisiynu ar gyfer y maes Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid. • Darparu cyfleoedd i bobl ifanc ennill achrediadau drwy weithgareddau dysgu anffurfiol. • Cynllunio a darparu amrediad addas a pherthnasol o gyrsiau academaidd a galwedigaethol i bobl ifanc, gan gynnwys y cyrsiau hynny sydd fwyaf priodol ar gyfer manteisio ar gyfleoedd gwaith o fewn yr economi leol. • Gweithredu Cynllun 'Potensial' er mwyn cefnogi pobl ifanc NACH (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) a'r rhai sydd mewn perygl o fod yn NACH. • Datblygu a hybu prentisiaethau galwedigaethol ar draws y sir, gan fodelu a gweithredu'r dull gorau o gyflogi prentisiaid ifanc • Gweithredu Strategaeth Lletya Pobl Ifanc er mwyn atal pobl ifanc rhag bod yn ddigartref drwy eu galluogi i aros gartref neu i sicrhau llety addas, diogel a sefydlog.

Ardal gyffrous i fyw gyda chymunedau byrymus

- Mwy o bobl ifanc a theuluoedd oed gwaith yn dewis aros yn y sir i fyw a gweithio (*tudalen 17*)
- Pobl a chymunedau hyderus efo'r gallu i ddatblygu eu hatebion eu hunain (*tudalen 17*)
- Trefi sydd yn llwyddo i wasanaethu eu hardaloedd ac sy'n fywiog a deniadol i drigolion ac ymwelwyr (*tudalen 17*)
- Cartrefi sydd yn addas ar gyfer anghenion trigolion Gwynedd (*tudalen 18*)
- Mynediad a chludiant rhesymol at wasanaethau o safon i bobl Gwynedd (*tudalen 19*)
- Pobl Gwynedd yn teimlo yn ddiogel o fewn eu cymuned (*tudalen 20*)
- Pobl yn byw trwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngwynedd (*tudalen 21*)

Cyflwyniad

Mae Partneriaid Gwynedd ar y Cyd wedi adnabod yr angen i gynllunio er mwyn ymateb i newid demograffig a chynyddu ymdrechion i wneud yr ardal yn ddeniadol i deuluoedd a phobl ifanc.

Mae Cyngor Gwynedd, trwy'r drefn Byrddau Rhaglen, wedi adnabod clwstwr o brosiectau mae yn eu hystyried yn drawsnewidiol, ac am eu blaenoriaethu ar gyfer eu gweithredu yn y cyfnod 2011-14, gan gynnwys prosiectau fydd yn gweithredu mesurau ar gyfer gwneud y sir yn lle mwy deniadol i bobl leol aros yma i fyw a gweithio, gyda phwyslais ar bobl ifanc a theuluoedd oed gwaith. Wrth weithredu'r prosiectau ar gyfer creu ymdeimlad o gyffro a bywiogrwydd bydd sylw yn cael ei roi i dargedu'n ofodol, ac yn benodol i wyro prif raglenni i Feirionnydd.

Mae Partneriaeth Economaidd Gwynedd yn arwain y Cynllun Datblygu Gwledig yng Ngwynedd, ac yn y cyd-destun hwnnw yn gweithredu prosiectau i gefnogi a datblygu ymdrechion cymunedol.

Arweinir y blaenoriaethau allweddol eraill yn y maes hwn gan Bartneriaeth Tai Gwynedd (4)

Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd (6) a Hunaniaith - Partneriaeth laith Strategol y sir (7)

MWY O BOBL IFANC A THEULUOEDD OED GWAITH YN DEWIS AROS YN Y SIR I FYW A GWEITHIO POBL A CHYMUNEDAU HYDERUS EFO'R GALLU I DDATBLYGU EU HATEBION EU HUNAIN TREFI SYDD YN LLWYDDO I WASANAETHU EU HARDALOEDD AC SY'N FYWIOG A DENIADOL I DRIGOLION AC YMWELWYR		
Profiadau	**Tystiolaeth**	**Bwriadau Gweithredu**
Beth ydym ni eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd a sut fydd hyn yn edrych?	Pam fod hwn wedi cael ei adnabod fel canlyniad?	Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r is - ganlyniad?
• Gwynedd yn cael ei chysylltu efo delwedd egnïol, gyffrous a man lle mae pethau yn digwydd • Pobl ifanc yn gweld byw a gweithio yng Ngwynedd fel y dewis anturus, gyda mwy o bobl ifanc a theuluoedd oed gwaith yn dewis ac yn medru aros yn y sir i fyw a gweithio • Pobl a chymunedau hyderus efo'r gallu i ddatblygu eu hatebion eu hunain a bod yn fwy hunangynhaliol • Sawl tref o fewn y sir wedi ail-ganfod eu pwrpas fel prif ganolfannau gwaith a gwasanaethau eu hardaloedd, ac yn fannau bywiog a deniadol i drigolion ac ymwelwyr	• Mae cynnal poblogaeth oed gwaith y sir, wedi ei hadnabod fel her i gynaladwyedd economi a chymdeithas y rhannau mwy gwledig o'r sir, ac mae'n her benodol ym Meirionnydd – 62.2% o boblogaeth Gwynedd sydd mewn oed gwaith, ac mae'r tueddiadau yn dangos y bydd hynny yn gostwng yn y blynyddoedd i ddod • Mae pobl ifanc a rhai mewn oed magu teuluoedd yn parhau i symud o Wynedd - gyda 13.5% o rai 20-34 oed yn allfudo • Mae canran bodlonrwydd trigolion o ran byw yn y sir angen ei sefydlu – fodd bynnag, mae astudiaethau ac arolygon gwahanol wnaed yn y gorffennol i adnabod agwedd pobl ifanc at yr ardal wedi adnabod y darlun o Wynedd fel lle nad oes dim yn digwydd, a'r syniad o angen symud oddi yma ar gyfer bywyd anturus.	• **Yma Mae Pethau'n Digwydd –** cefnogi digwyddiadau a gweithgareddau fydd yn creu'r ddelwedd o fan lle mae pethau'n digwydd, ac yn ennyn perchnogaeth leol • **Bwrsariaeth Swyddi Allweddol –** targedu myfyrwyr y sir sy'n dilyn cyrsiau mewn meysydd proffesiynol lle bo prinder lleol neu anhawster recriwtio e.e. Deintyddion, gan sefydlu amodau priodol ar gyfer bwrsariaeth (sgopio'r cyfleon yn 2011/12) • **Bywiocau a Gwella Delwedd Canol Trefi** – gan weithredu mesurau er mwyn dod â phobl yn ôl i ganol trefi • **Llwyddo yng Ngwynedd: Pecynnu'r Profiad -** cymorth ariannol ac ymarferol i 15 cymuned yng Ngwynedd adnabod eu rhinweddau unigryw a'u pecynnu a'u hyrwyddo i ymwelwyr a thrigolion lleol • **Llwyddo yng Ngwynedd: Cymunedau Cynaliadwy -** cymorth dwys i 5 cymuned wledig asesu cynaladwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardaloedd gan ddatblygu a gweithredu cynlluniau arloesol mewn ymateb.

CARTREFI SYDD YN ADDAS AR GYFER ANGHENION TRIGOLION GWYNEDD		
Profiadau	**Tystiolaeth**	**Bwriadau Gweithredu**
Beth ydym ni eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd a sut fydd hyn yn edrych?	Pam fod hwn wedi cael ei adnabod fel canlyniad?	Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r is - ganlyniad?
• Ansawdd a chyflwr stoc tai y Sir wedi ei wella. • Darpariaeth ychwanegol o dai fforddiadwy amrywiol i drigolion lleol. • Cynnydd yn y defnydd o eiddo presennol er ymateb i anghenion tai ein trigolion	• Mae prif ganfyddiadau o Arolwg diweddaraf o Gyflwr Stoc Gwynedd (2003) yn cadarnhau fod 9% o stoc tai Gwynedd wedi ei ddosbarthu yn anaddas o'i gymharu â chyfartaledd Gogledd Cymru (6.6%); fod 18.2% o'r stoc wedi ei ddosbarthu yn ddiffygiol. • Mae fforddiadwyedd yn her arbennig mewn ardal fel Gwynedd gyda chymhareb prisiau tai i incwm yn 6:1. • Ym Medi 2010 roedd pris cyfartalog tai yng Ngwynedd yn £178,556. • 2,900 wedi cofrestru ar restr aros tai Cartrefi Cymunedol Gwynedd / Cyngor Gwynedd yn Chwefror 2011. • Oddeutu 1,254 o eiddo gwag hir dymor (dros 6 mis) yng Ngwynedd. (sefyllfa Ebrill 2011 yn nol data Uned Treth Cyngor Gwynedd). • Gall y maes yma chwarae rhan bwysig mewn cyflawni amryw o amcanion yn cynnwys cyfrannu at ddarpariaeth uwch o dai fforddiadwy, cymunedau mwy diogel, ac adfywio a chynnal economïau lleol mwy cynaliadwy.	• Sicrhau gwella ansawdd 100 o unedau tai preifat yng Ngwynedd rhwng 2011 ac 2016 (ar sail bod adnoddau ar gael i weithredu). • Byddwn wedi darparu 200 o unedau fforddiadwy ychwanegol i Wynedd drwy gyfrwng y gwahanol fesurau (rhwng 2011 ac 2016 ar sail bod adnoddau ar gael i weithredu). • Byddwn wedi dychwelyd cyfanswm o 150 unedau gwag hir dymor yn ôl i ddefnydd rhwng 2011 ac 2016 (ar sail bod adnoddau ar gael i weithredu

MYNEDIAD A CHLUDIANT RHESYMOL AT WASANAETHAU O SAFON I BOBL GWYNEDD		
Profiadau	**Tystiolaeth**	**Bwriadau Gweithredu**
Beth ydym ni eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd a sut fydd hyn yn edrych?	Pam fod hwn wedi cael ei adnabod fel canlyniad?	Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r is - ganlyniad?
Gwella mynediad i gludiant cymunedol ar draws y sir.	• Ar hyn o bryd ceir anghydraddoldeb daearyddol sylweddol o ran y ddarpariaeth cludiant cymunedol ar draws y sir. • Mae angen datblygu a hyrwyddo rhwydwaith cludiant gwirfoddol a chymunedol egnïol a blaengar sy'n cynnig opsiynau hygyrchedd fydd yn ymateb i anghenion lleol, yn gwella cynhwysiad cymdeithasol ac yn cynnig gwerth gorau	• Sicrhau bod darpariaeth cludiant cymunedol yn ddibynadwy ac yn hygyrch ar draws y sir. • Sicrhau bod darpariaeth cludiant cymunedol yn y Sir yn addas ar gyfer ei ddefnyddio i bobl gydag anableddau.

POBL GWYNEDD YN TEIMLO YN DDIOGEL O FEWN EU CYMUNED		
Profiadau	**Tystiolaeth**	**Bwriadau Gweithredu**
Beth ydym ni eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd a sut fydd hyn yn edrych?	Pam fod hwn wedi cael ei adnabod fel canlyniad?	Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r is - ganlyniad?
• Dylai Gwynedd fod yn le diogel i fyw, i weithio ac i ymweld • Dylai trigolion y sir fod yn hyderus o allu'r heddlu a'r Awdurdod Lleol i gydweithio yn effeithiol er mwyn delio â thor cyfraith a'r materion ymddygiad gwrth gymdeithasol sydd yn cael effaith arnyn nhw	Ystadegau'r Swyddfa Gartref 2009/10: Y lefel o droseddau a gofnodwyd yng Nghymru a Lloegr : • 74 i bob 1,000 o'r boblogaeth • Gogledd Cymru : 66 i bob 1000 % o bobl wnaeth ddioddef oherwydd tor cyfraith (i bob 10,000 o'r boblogaeth): • Cymru a Lloegr: 6% • Gogledd Cymru : 3% % o bobl yn canfod lefelau uchel o ymddygiad gwrth gymdeithasol: • Cymru a Lloegr: 14% • Cymru 16% • Gogledd Cymru 10% Cyfradd datrys troseddau: • Cymru a Lloegr 28% • Gogledd Cymru 41% (uwch eto yng Ngwynedd) Mae gan Heddlu Gogledd Cymru y gyfradd datrys troseddau uchaf ond un o 43 o heddluoedd. Yr her yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ariannol ac ailstrwythuro o fewn sefydliadau strwythurol fel yr heddlu ac Awdurdodau Lleol, yw cynnal y lefelau troseddu isel yma.	Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd wedi llunio cynlluniau gweithredu yn y meysydd canlynol: – • Trais yn y Cartref • Ymddygiad Gwrth- Gymdeithasol • Lleihau ail droseddu • Cyffuriau Dosbarth A • Ymosodiadau • PREVENT- (gwrth derfysgaeth) Mae gan y Bartneriaeth gynlluniau tair blynedd Ar gyfer • Trosedd ac Anrhefn, • Camddefnyddio Sylweddau

POBL YN BYW TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG YNG NGWYNEDD		
Profiadau	**Tystiolaeth**	**Bwriadau Gweithredu**
Beth ydym ni eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd a sut fydd hyn yn edrych?	Pam fod hwn wedi cael ei adnabod fel canlyniad?	Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r is - ganlyniad?
• Teuluoedd yn magu eu plant trwy gyfrwng y Gymraeg • Plant a phobl ifanc yn byw, dysgu, gweithio a mentro trwy gyfrwng y Gymraeg yn lleol • Y Gymraeg yn ffynnu yng nghymunedau Gwynedd • Y Gymraeg yn iaith fusnes yng ngweithleoedd Gwynedd	• Yn ôl Cyfrifiad 2011, 2 riant yn siarad Cymraeg gartref = 89.7% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg; dim oedolyn yn siarad Cymraeg = 34.6% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg • Yn ôl Arolwg Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg gan Blant Sector Cynradd Gwynedd; 70% o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg gyda'r athro yn y dosbarth, 27% o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn bennaf gyda'u ffrindiau ar y buarth • 69% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd yn ôl Cyfrifiad 2001 gostyngiad o -1.8% ers 1991. • 41 Adran Etholiadol efo dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 o gymharu â 60 ward yn 1991. • Ar wahân i ddatganiad polisi, mae gan sefydliadau gyfrifoldeb i gefnogi defnydd iaith unigolion yn y man gwaith. Mae'r holl gyrff cyhoeddus sydd yn gwasanaethu yng Ngwynedd wedi gweld yr angen i ddatblygu sgiliau'r gweithlu sydd ar Lefel 4 i gyrraedd Lefel 5. Dyma'r gweithlu a gaiff yr effaith mwyaf ar ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, yn arbennig yn yr hinsawdd ble nad yw cyrff cyhoeddus yn recriwtio o'r newydd.	• Byddwn wedi datblygu cynllun peilot mewn 2 ardal fydd yn sicrhau cyfleoedd a chefnogaeth briodol i rieni fagu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant • Cynnal digwyddiad proffil uchel i godi ymwybyddiaeth o rôl y gweithlu i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg • Buddsoddi mewn Cynllun Cyfieithu Cymunedol i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg • Llunio a datblygu cwrs addas i siaradwyr rhugl i ddatblygu sgiliau llafar sydd yn addas ar gyfer y gweithle

Gwynedd yn ardal gydag iechyd da a'r gofal gorau yn y gymuned

- Pobl Gwynedd yn byw bywydau iach (*tudalen 23*)
- Pobl Gwynedd yn derbyn cefnogaeth addas ac amserol i fyw yn annibynnol (*tudalen 24*)
- Pobl Gwynedd yn cael cyfle i gael iechyd da (*tudalen 25*)

Cyflwyniad

Y mae iechyd a lles trigolion Gwynedd ar y cyfan yn ffafriol o'i gymharu â'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Ond, mewn dadansoddiad diweddar o anghenion iechyd a lles, fe adnabuwyd nifer o faterion allweddol. Ymhen ugain mlynedd, fe fydd un o bob tri o'r boblogaeth yng Ngwynedd dros 60 oed neu throsodd. Eisoes mae gan un o bob tri oedolyn o Wynedd gyflwr cronig sy'n amharu ar ei ffordd o fyw. Mae 57% o'r boblogaeth yn dew neu'n ordew a'r duedd yn cynyddu. Mae'r galw am wasanaethau iechyd a gofal a chost y gwasanaethau traddodiadol hynny yn cynyddu'n fawr.

Partneriaeth aml asiantaethol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwynedd sydd yn arwain ar y thema hon ac mae cyfrifoldeb statudol ar y prif bartneriaid sef Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gynhyrchu Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar gyfer gofynion Gwynedd 2011-2014 yn cael ei ddiwallu yn y ddogfen hon.

Mae'r weledigaeth yn un uchelgeisiol sef

"Anelu at iechyd a lles i bobl Gwynedd sy'n cymharu â'r gorau yn Ewrop".

Gwaith y Bartneriaeth felly ydy sicrhau fod bwriadau gweithredu yn cael eu datblygu yn seiliedig ar yr is ganlyniadau yn cael eu datblygu, eu gweithredu a'u monitro gan annog cydweithio ar draws asiantaethau iechyd a gofal a gweithio gyda phartneriaethau statudol eraill i uchafu buddion iechyd i drigolion Gwynedd. Ond y mae pobl a chymunedau Gwynedd hefyd yn bartneriaid pwysig iawn a'r unig ffordd i wella iechyd a lles yn hir dymor ydy trwy i bawb gyd weithio i gyrraedd y nod.

POBL GWYNEDD YN BYW BYWYDAU IACH		
Profiadau	**Tystiolaeth**	**Bwriadau Gweithredu**
Beth ydym ni eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd a sut fydd hyn yn edrych?	Pam fod hwn wedi cael ei adnabod fel canlyniad?	Beth yw'r bwriadau gweithredu ar gyfer er gwireddu'r is ganlyniad ?
Bydd pobl Gwynedd yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach gan • gael y cychwyn gorau mewn bywyd • fwynhau'r iechyd a lles gorau posibl yn y cartref, yr ysgol, y gwaith a'r gymuned • wneud newidiadau ffordd o fyw er mwyn gwella iechyd • fod yn gyfrifol am eu hiechyd eu hunain ac yn gwneud penderfyniadau iechyd positif • dderbyn gwybodaeth i wneud y dewisiadau cywir • gael mynediad at ymyraethau ataliol cynnar	Mae iechyd a lles trigolion Gwynedd ar y cyfan yn ffafriol ond mae pryder am y materion a ganlyn: • dim ond 42% o'r boblogaeth sy'n adrodd eu bod yn bwyta 5 dogn o ffrwythau/llysiau pob wythnos • dim ond 35% sy'n adrodd eu bod yn cyfarfod y canllawiau ymarfer corff • mae 25% o bobl Gwynedd yn dal i adrodd eu bod yn ysmygu • Dim ond 0.6% sy'n cysylltu efo Dim Smygu Cymru am gymorth i roi gorau i ysmygu • Mae 45% o'r boblogaeth yn adrodd eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau cydnabyddedig • Mae 57% o'r boblogaeth yn adrodd eu bod yn dew neu'n ordew ac 19% yn ordew	Er mwyn annog trigolion Gwynedd i ddewis ffordd iach o fyw, bwriedir sefydlu Prosiect Gwynedd Iach fydd yn hybu ac yn cydlynu gweithgareddau ac ymyraethau iechyd a lles i drigolion Gwynedd o bob oed, boed yn yr ysgol , yn y gymuned neu yn y gweithlu. Bwriedir canolbwyntio ar y themâu canlynol : • Gweithgaredd Egniol • Bwyta'n Iach • Yfed yn gall • Gwynedd Di-fwg • Iechyd o fewn y Cyngor • Iechyd y Gweithlu Bydd hybu iechyd a lles meddyliol yn allweddol i lwyddiant pob un o'r themâu.

POBL GWYNEDD YN DERBYN CEFNOGAETH ADDAS AC AMSEROL I FYW YN ANNIBYNNOL A DIOGEL		
Profiadau	**Tystiolaeth**	**Bwriadau Gweithredu**
Beth ydym ni eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd a sut fydd hyn yn edrych?	Pam fod hwn wedi cael ei adnabod fel canlyniad?	Beth yw'r bwriadau gweithredu ar gyfer er gwireddu'r is ganlyniad ?
Bydd pobl Gwynedd yn derbyn cefnogaeth pan fo angen sydd • yn hybu eu hannibyniaeth • yn eu galluogi i reoli eu hiechyd eu hunain • yn rhoi mwy o reolaeth a dewis yn y gwasanaethau gaiff eu cynnig • yn addas ac ar gael yn y lle iawn ar yr amser iawn iddynt hwy • yn arddangos cydweithio effeithiol rhwng partneriaid er mwyn sicrhau gwasanaethau di-dor o'r radd flaenaf • yn sicrhau gwerth am arian • yn adlewyrchu barn defnyddwyr wrth gydgynllunio, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau	Tystiolaeth bwysig iawn yn y maes hwn ydy'r hyn y mae defnyddwyr gwasanaeth eu hunain yn ei ddweud am y ddarpariaeth iechyd a gofal. Dyma rai sylwadau dadlennol iawn o adroddiad *Ymestyn allan i'r gymuned* *"Gormod mod o gyfnewid gofal rhwng gwasanaethau - cael fy mhasio rownd a newidiadau'n achosi problemau. Angen lleihau'r rhwystrau rhwng gwasanaethau ac eisio delio efo llai o weithwyr. Y ddau sefydliad mawr, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ddim yn gweithio gyda'i gilydd!"* Yr angen am "U*n pwynt cyswllt at wasanaethau"* *"Mwy o iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cydweithio – gwneud newidiadau mor gyflym ag sy'n bosibl fel nad yw pobl yn colli hyder."* *"Ni ddylai gwasanaethau wneud i chi fod yn ddibynnol – gallwn helpu ein hunain a dylem gael help i'n galluogi i wneud hyn."*	• Datblygu cynlluniau comisiynu ar y cyd ar gyfer ystod o grwpiau arbennig megis pobl hŷn • Cynyddu'r pwyslais ar ymyraethau ataliol cynnar yn y gymuned • Cryfhau trefniadau timau amlddisgyblaethol a gwasanaethau integredig o fewn yr ardaloedd gan sicrhau eu bod yn ymateb i anghenion lleol • Moderneiddio gwasanaethau craidd er mwyn medru darparu cefnogaeth fwy addas i ofynion heddiw • Cryfhau trefniadau ymgysylltu • Sicrhau fod gwasanaethau cyfeirio mewn lle ar gyfer grwpiau bregus

POBL GWYNEDD YN CAEL CYFLE CYFARTAL I GAEL IECHYD DA		
Profiadau	**Tystiolaeth**	**Bwriadau Gweithredu**
Beth ydym ni eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd a sut fydd hyn yn edrych?	Pam fod hwn wedi cael ei adnabod fel canlyniad?	Beth yw'r bwriadau gweithredu ar gyfer er gwireddu'r is ganlyniad ?
Bydd pobl Gwynedd yn byw mewn cymunedau sy'n • cael mynediad teg at wasanaethau iechyd a gofal • targedu ymyraethau ataliol ar sail angen • adeiladu capasiti ymhlith y trigolion i chwilio am yr atebion drostynt eu hunain ac i wneud dewisiadau iechyd iach • meithrin sgiliau pobl • meithrin hyder a hunanwerth yr holl drigolion • ystyried yr effaith unrhyw brosiectau cymunedol newydd ar iechyd	• Mae'r bwlch mewn disgwyliad oes rhwng y rhai mwyaf a'r rhai lleiaf difreintiedig yn cynyddu ar hyn o bryd. • Mae'r bobl fwyaf difreintiedig yn sgorio'n is o ran sgôr iechyd meddwl • Mae pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ddwywaith mwy tebygol o farw fel canlyniad i oryfed na phobl yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig er nad oes yna gysylltiad rhwng amddifadedd ac yfed alcohol yn ormodol • Pryder am y toriadau arfaethedig mewn gwasanaethau yng Ngwynedd ac yn benodol yr effaith ar y mwyaf bregus yn ein cymunedau. • Pryder ardaloedd gwledig am ganoli gwasanaethau posib yn sgil y dirwasgiad ariannol a'r cynnydd mewn costau petrol yn ei gwneud yn ddrutach i deithio at wasanaethau	• Gweithio mwy efo grwpiau cymunedol megis Cymunedau'n Gyntaf i asesu beth ydy'r anghenion lleol ac i gydweithio ar y datrysiad • Sicrhau fod y Prosiect Gwynedd Iach yn gweithio efo cymunedau i dargedu ymyraethau mewn ardaloedd penodol • Meithrin sgiliau o fewn cymunedau i arwain ar yr ymyraethau • Cynyddu'r pwyslais ar weithgareddau ataliol ac ymyraethau cynnar mewn cymunedau • Edrych ar ffyrdd o gydlynu a gwella trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn gwella mynediad at wasanaethau iechyd a gofal pan fo angen

Cysylltwch â ni...

Os hoffech ymateb i gynnwys y ddogfen hon bydd angen i chi wneud hynny erbyn Mehefin 13eg 2011. Croesawn eich sylwadau ar gynnwys y ddogfen hon

- Ydy'r blaenoriaethau yma yn cwrdd â'r materion pwysicaf sydd yn wynebu'r sir?
- Sut allwn ni ychwanegu gwerth at y cynlluniau gweithredu?
- A wyddoch am weithgareddau neu brosiectau a all gyfrannu at gwrdd â'r blaenoriaethau yma?

Danfonwch eich sylwadau i

gwyneddarycyd@gwynedd.gov.uk

Gwynedd ar y Cyd
Stryd y Jêl
Caernarfon
LL551SH

www.gwyneddarycyd.org.uk

Gwynedd
AR Y CYD - TOGETHER

Mae'r ddogfen hon ar gael ar ffurf braille/ print bras/ audio ar eich cais